# DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD A'R CYLCH

RHIF 150 RHAGFYR/IONAWR 1988/9

# NADOLIG LLAWEN
# A BLWYDDYN NEWYDD DDA



# SÊR Y DINESYDD

*Eiry Palfrey*

Mae 'r Nadolig yn nesau a'r broblem fawr sy'n codi'i phen bob blwyddyn ydy pa anrhegion i'w prynu. Eleni beth am adael i'r sêr eich helpu i wneud eich siopa 'Dolig.

ARIES
Mae rhain yn arweinwyr naturiol, eisiau mynd, mynd o hyd. Mi fyddan nhw felly'n gwerthfawrogi unrhywbeth sy'n newydd a chyffrous. Cyfrifiadur neu gar newydd. Byddai anrheg a'u henw arno'n plesio'n fawr, neu enw'r tŷ. Maen nhw'n dwli ar wydr, a diamwntau. Prynnwch ddrych. Eu hoff liwiau yw coch (llachar), du a gwyn.

TAURUS
Bobl ddibynnol iawn yw rhain ond maen nhw'n hoffi moethusrwydd. Prynnwch lun (gwreiddiol os yn bosib) o olygfa wladaidd, planhigyn neu flodau - mi fyddai unrhyw beth i'r ardd yn eu plesio. Gemau, tlysau, mwclis. Bwydydd moethus fel pate de foie gras, pwdin plwm o Harrods, neu botel o Bort (vintage wrthgwrs!). Allannhw ddim gwrthsefyll siocledi - drud.

GEMINI
Pobl brysur, amryddawn yw'r rhain sy'n haeddu anrheg i wneud eu bywyd ychydig yn fwy trefnus - prynnwch Ffiloffaith, cyfrifiadur, neu gloc larwm iddyn nhw. Dyma gyfathrebwyr y sidydd a mi fyddant wrth eu boddau yn derbyn teipiadur, prosesydd geiriau neu beiriant recordio sain neu fideo. Eu hoff liw yw melyn.

CANCER
Mae rhain wrth eu boddau yn gofalu'n annwyl am rywbeth, ci, cath, tedi bêr neu blanhigyn. Neu prynnwch rywbeth i harddu'r cartref, yn enwedig os yw e'n arian neu'n anticiw, neu'r ddau! Maen nhw'n dwli ar gasglu pethau - dechreuwch nhw ar gasgliad o stampiau, siwgiau, neu hen lwyau. Prynnwch ddillad i'w hanwesu, siol neu sgarff. Arian neu lwyd golau yw eu hoff liw.

LEO
Dyma i chi bobl hael sy'n hoffi creu argraff, felly os am gadw eu cyfeillgarwch gofalwch nad yw eich anrheg chi yn well na'u un nhw! Prynnwch rhywbeth i harddu eu gwallt - crib, rhuban neu byrm. Rhowch docynnau theatr iddyn nhw, cinio moethus, drych, gemau mawr, recordiau ney dapiau, neu ddillad sy'n disgleirio. Eu hoff liwiau yw aur, melyn ac oren.

VIRGO
Dyma drefnwyr y sidydd, mae gan rain le i bob peth. Mi fyddant wrth eu boddau yn derbyn Ffiloffaith, y Geiriadur Mawr, Y Bywgraffiadur neu'r Cydymaith i Lenyddiaeth Gymraeg. Bydd rhain yn croesawu anrhegion o sebon, powdwr talc, diaroglydd neu bersawr ol-eillio. Mae'n nhw'n hoff o fwydydd cyflawn hefyd a meddigyniaethau naturiol. Eu hoff liwiau yw glas tywyll, a llwyd.

SCORPIO
Pobol angerddol, ddwfn, rhywiol iawn medd rhai. Maen nhw wrth eu boddau yn ymchwilio a thwrio i'r gorffennol, a byddent yn croesawu'r Bywgraffiadur neu Encyclopaedia. Rhowch dillad isa sidan du iddyn nhw, eu ddilledyn lledr. Byddai potel o unrhyw wirod yn plesio'n fawr - neu gês o win coch. Prynnwch lyfrau am ddirgelion - neu blanhigion anghyfarwydd - madrach? Hoffliwiau yw coch tywyll a du.

SAGITTARIUS
Mae rhain yn hoffi symud, mynd mynd o hyd - rhaid felly prynu rhywbeth i hwyluso eu prysurdeb, ffwrn meicrodon, prosesydd bwyd - neu eiriau, neu gamera otomatig. Maen nhw'n hoffi ceffylau, cwn mawr, ceir cyflym a chwaraeon o bob math, felly prynnwch offer neu lyfrau'n ymwneud â'r rheiny. Tocynnau theatr, byrlymau sebon, whisky, gwersi hedfan. Hoff liw yw porffor.

CAPRICORN
Dyma i chi bobol synhwyrol sobor ac uchelgeisiol. Mi fyddent yn gwerthfawrogi anrheg ymarferol solet o wneuthuriad dibynnol fel Rolls Royce, Miele, Rolex neu Cartier. Neu rhowch rywbeth syml a didwyll iddyn nhw wedi ei lapio mewn papur Harrods. Mae llyfrau dwys a difrifol yn dderbyniol bob tro. Neu prynnwch falwn i godi'u hysbryd. Lliwiau sobor sy'n tycio - dim byd llachar - brown, du neu las tywyll.

AQUARIUS
Mae unrhywbeth newydd a gwirion yn apelio at rain - fel cloc larwm sy'n meddwl mai pel griced yw e, neu watch sy'n cynnau sigarennau. Prynnwch ddilledyn llachar yn streipiau o bob lliw, neu dei bô chwirligwgan lurex. Prynnwch gêm, iddyn nhw gael esgus i wahodd eu ffrindiau i'w chwarae. Mae rhain yn gwerthfawrogi syrpreis. Hoff liw yw gwyrddlas llachar, streipiau a sieciau.

PISCES
Pobl artistig, emosiynol yw'r rhain - prynnwch hancesi tlws iddyn nhw, pysgodyn aur neu botel fach o rywbeth cryf - persawrneu frandi. Mae nhw wrth eu boddau gyda sgidie sane sild du neu lopannau gwlan cynnes. Rhowch ddillad rhamantus iddyn nhw o ddeunydd fel chiffon neu felfed. Prynnwch ganhwyllau, arogldarth neu docynnau i'r sinema. Hoff liwiau yw gwyrdd a fioled.

CYSTADLEUARTH ARBENNIG

GOSODIAD GYNULLEIDFAOL
O WEDDI'R ARGLWYDD

Y mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn cyhoeddi cystadleuaeth am osodiad cynulleidfaol safonol o Weddi'r Arglwydd allan o'r Bebil Cymraeg newydd. Gwahoddir cynigion, dan ffugenw, i gyrraed Swyddfa Ganolog yr Eisteddfod Genedlaethol erbyn Ebrill 1af 1989 a bwriedir cyhoeddi'r cyfansoddiad buddugol yn Eisteddfod Dyffryn Conwy a'r Cyffiniau yn Llanrwst yn mis Awst Beirniaid Panel Cerddoriaeth Cyngor yr Eisteddfod Genedlaethol. Y mae'r gystadleuaeth hon yn agored i bawb. Dylid anfon y ceisiadau ar ffurflen gais 5 alan o Restr testunau Eisteddfod Dyffryn Conwy a'r Cylch. Am ragor o fanylion, cysyllter a Chyfarwyddwr yr Eisteddfod Genedlaethol 10 Park Grove, Caerdydd. CF1 3BR. Ffon (0222) 394120 neu 398399.

---


**MUDIAD ADDYSG GRISTNOGOL CYMRU**

CYNORTHWYDD GWEINYDDOL
(RHAN-AMSER)
(safon RSA Gradd 2; gallu prosesu geiriau yn fantais)

i weithio yn y swyddfa yng Nghaerdydd. Oriau hyblyg. Tâl i'w gytuno.

Ceisiadau a C.V. i :
Miss T. Lewis,
M.A.G.C.
Tŷ'r Cymry,
11 Gordon Rd,
Caerdydd. CF2 3AJ.
Ffôn (0222) 494692
erbyn 10 Ionawr 1989.



Rhif Ffon:(0222) 481028

DINAS STUDIOS

**Argraffwyr**

Uned 4, Royal Stuart Workshops,
Adelaide Place, Caerdydd.
CF1 6BR.

# LLUN Y NADOLIG

Ym Mlaenau Ffestiniog yng nghanol y fro Gymraeg y mae'r unig Eglwys Uniongred Rwsiaidd yng Nghymru. Gwelwyd pabell yr Eglwys Uniongred ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol am y tro cyntaf ym Mhorthmadog ac eto eleni yng Nghasnewydd. Gwefreiddiwyd llawer o'i ymwelwyr â'r tapiau o'r canu corawl bendigedig sydd yn naturiol ei hapêl i ni'r Cymru. Yno hefyd y gwerthwyd cardiau pôst o luniau nifer o iconau o Eglwys Uniongred yr Amddiffyniad Sanctaidd ym Mlaenau. Iconau cyfoes ydynt ondwedi eu gwneud yn y traddodiad iconaidd gan M Struve a G Papageorgiou, a rhai ohonynt yn ddelweddau o rai Saint Cymru fel Cybi Felyn a Seiriol Wyn, Eilion Sant, a'r Santes gwenffrewi.

Gyda chaniatad caredig yr Hybarch Abad, y tad Deiniol, defnyddiwn icon M Papgeorgiou o'r Fendigaid Forwyn Fair a'i phlentyn fel ein llun y Nadolig eleni. Defnyddir y gair icon fel rheol i ddisgrifio y darluniau crefyddol hynny - gan amla ar baneli pren, hawdd eu cludo, sydd yn cael lle amlwg yn addoliad Eglwysi Uniongred y Dwyrain. Daw'r gair o'r Groeg am ddelwedd, ac fe'i gwelir yn y Beibl gyntaf yn Genesis. 'Felly creodd Duw ddyn ar ei ddelw ei hun'.

I rai sydd o genfdir crefyddol a chelfyddydol Ewrop y Gorllewin, y mae'r iconau efallai wedi edrych yn bethau od iawn. Edrychwn arnynt fel darluniau afreal a'i disgrifio'n swta efallai fel fflat, primitif a dibwys. I ni yn y Gorllewin y mae diffyg realaeth mewn darluniau yn gallu bod yn broblem. Efallai mai'r gwir yw fod yn rhaid i haen ar ôl haen o ffordd o feddwl gael ei ddiosg cyn i ogoniant a rhyfeddod y traddodiad iconaidd o beintio gael ei ddatgelu. O wybod mwy o'i hanes, ei hystyr, a'i symbolaeth fe all hynny agor drws dirnadaeth, a chaniatau cip ar fyd yr iconau Sanctaidd, fydd efallai yn cyfoethogi profiadau ysbrydol.

Nid yw hyn yn golygu troi cefn ar ein hanes a'n traddodiadau crefyddol ein hunain, ond fe all olygu ceisio creu agweddau eraill tuag at ffurfiau addoliad yr Eglwys yn fyd eang.

Fe â'r traddodiad o beintio iconau yn ôl i'r 5ed ganrif pan wnaed 'heb ddwylo', icon o'r Gwaredwr. Delwedd o Wyneb Sanctaidd Crist, a ddigwydd-odd yn wyrthiol yn ôl y chwedl, ar liain, a'i ddanfon at y Brenin Abgar i'w iachau. Y mae'r chwedl yn dweud yn debyg i Paul yn 2 Cor 3. 18, 'Ac yr ydym ni i gyd, heb orchudd yn ein hwyneb, yn edrych, fel mewn drych, ar ogoniant yr Arglwydd, ac yn cael ein trawsffurfio o ogoniant i ogoniant, yn wir lun ohono ef'.

Datblygodd celfyddyd Cristnogol yn rhan hanfodol o ffydd, addysg ac addoliad yr Eglwys, ac y mae iconau yr Eglwys Uniongred yn un rhan o'r datblygiad hwnnw. Bu adegau mewn hanes pan ymorthodwyd yn ffyrnig â'r traddodiad gweledol hwn, gydag ofnau am eilun addoliaeth. Eto, parhau i fynegi a chyfleu pwysigrwydd y profiad Cristnogol y mae'r traddodiad heddiw. Dadlai amddiffynwyr yr icon, fod datguddiad o'r ymgnawdoliad yn dod drwy wledd; yn ogystal a chlywed, trwy'r llygad yn ogystal a'r glust.

Ychwanegwyd delweddau eraill at yr un o'r Gwyneb Sanctaidd, ac fe wnaed delweddau o'r Forwyn Fair yn gynnar iawn. Y mae yna draddodiad fod Luc yn artist, ac mai ef beintiodd y llun cyntaf o'r Forwyn. Cyn oes yr icon y mae delweddau cynnar o Maria a'r Baban Dwyfol ar ei glun i'w cael ym mynwentydd Rhufain - e e Catacwm Priscilla, tua diwedd y ganrif gyntaf.

Er i'r iconau cynharaf berthyn i'r 6ed ganrif y mae'r ffurfiau y lliwiau, a symbolaeth y darluniau yn parhau'n debyg hyd heddiw. Prin yw'r lliwiau llachar o ysgarlad neu las a welir ar glogyn Mair ym mheintiadau clasurol y Dadeni. Y mae ffurf y Baban Iesu yn debycach i ddyn o faint bach - fel mae Luc 2. 16, yn adrodd 'ac a gawsant Mair a Joseph a'r dyn bach yn gorwedd yn y preseb'. Yn un llaw yn y darlun gwelir ysgrôl, symbol o Ddoethineb, a'r llaw arall yn cyffwrdd yn dirion â gen ei fam. Ar glogyn Mair gwelir y Seren a arweiniodd y Doethion at yr Iesu. Ond gwyneb Mair sy'n hawlio'n sylw - ei golwg a'i llygaid fel petai'n rhagweld poen a dioddefaint y Groes i ddod.

Mewn erthygl yn y cylchgrawn cyd-enwadol 'Cristion' yn ddiweddar, y mae'r tad Deiniol yn tynnu cymhariaeth rhwng profiadau yr Eglwys yn Rwsia a phrofiadau eglwysi a chapeli yng Nghymru ein hoes ni. Yn Rwsia, Cristnogion wedi byw trwy gyfnod o erledigaeth i fwynhau effeithiau glasnost a Pherestroica - yng Nghymru, difaterwch ac eglwysi'n cau. A ninnau ar drothwy Gŵyl Dathlu'r Geni, trist fyddai gweld gwir ein gwlad yn colli arwyddocâd a gwir ystyr y Nadolig yn y gwario a'r prynu gwyllt.

Unwaith eto byddwn yn danfon ein cyfarchion i deulu a chyfeillion mewn cardiau crefyddol a seciwlar gan ddymuno Nadolig Llawen. Dyna wna'r Dinesydd yn ein llun Nadolig eleni eto, dymuno Nadolig Llawen i chi gyd.

'O ryffeddod gweld y Duwdod.......'

Seiriol Davies



**Hunangyflogedig?**
**Heb Bensiwn?**

Ffôn: Caerdydd (0222) 562816

**LYNN JONES**

FIMBRA

30, Highfields,
Llandâf,
Caerdydd, CF5 2QB

**BUDDSODDIADAU**
**YSWIRIANT BYWYD**
**PENSIYNAU**

ARDDANGOSFEYDD RHAGFYR

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU
Y Prif Adeilad Parc Cathays

Vanity Fair: yng Nghymru
13 RHAG - 12 CHWEF 1989
Detholiad o gartwnau o Gymry enwog oes Victoria a wnaed ar gyfer y cylchgrawn 'Vanity Fair'. Adlewyrchir hanes politicaidd a chymdeithasol y cyfnod hwn yn natblygiad Cymru.

Peintio Gweirglodd
tan 8 ION 1989
Arddangosfa o'r cynigion gorau o waith dros 30 o ysgolion Cymru mewn cystadleuaeth dan nawdd Apêl Natur Cymru. Y dasg oedd peintio gweirglodd, cynefin naturiol mewn perygl o ddifodiant. Gwelir hefyd beintiadau ar y pwnc gan artistiaid.

TY TURNER
Heol Plymouth, Penarth

Peintiadau Cyfoes
(yn barhau)
Detholiad o gasgliad yr Amgueddfa.

ORIEL
Heol Siarl

Gwledd o Groeso
26 TACH - 7 ION 1989
Gweithiau o ysbryd y Nadolig.

FFOTOGALLERY
Heol Siarl

Y Tirlun Ôl-Glasurol
tan 12 RHAG
Lluniau o wlad Groeg heddiw.

Arddangosfa Nadolig yr Aelodau
15 RHAGFYR ymlaen
Ffotograffau'r aelodau ar werth fel anrhegion Nadolig.


NEUADD DEWI SANT
Yr Ais

Alfred James
21 TACH - 23 RHAG
Golwg ar waith yr arlunydd o Abertawe. Gwaith hen a newydd. Y mae'r oriel ar agor 10am - 10pm.

Artistiaid yn Arddangos eu Gwaith

Bydd pum artist yn arddangos eu gwaith fel rhan o Arddangosfa Cymdeithasol Dyfrlliw Cymru. Cynhelir yr arddangosfa yn Oriel Viriamu Jones yn adeilad y Brifysgol o'r 18fed o Dachwedd hyd 17eg o Ragfyr. Yr artistiaid yw Elizabeth Haines, Clunderwen; Dulcie Mayne Stephens, Wenfô; Audrey Meadowcroft, Trefynwy; Angela Kingston, Llanilltud Fawr a Dennis Lascelles, Rhydaman. Amwybodaeth pellach cysyllter â Margaret Butler (0291) 690260

Os am
DIWNIWR PIANO
Cysyllter â
Hefin Tomos,
16 Llys Teilo Sant
Y Rhath
Caerdydd
Ffôn 484816



ACHLYSUR HAPUS
YN
SIOP MONDI
CAERDYDD.

Pleser ar ran S4C oedd cyflwyno llun o'r gantores Eirian James o Gilgerran, i Rosemary Trott, rheolwraig Siop Mondi yng Nghaerdydd. Gwisgodd Eirian gasgliad o ddillad Mondi yn ei chyfrs HEN WIN O GASTELL Y WAUN gan gwmni Dyffryn sydd wedi cychwyn ar S4C ar nos Sul am 7.30. Bydd llun Eirian yn cael ei arddangos yn y siop felly cofiwch alw i mewn i edrych arno a taro golwg ar y dilladau, sy'n dipyn o demtasiwn i'r gorau ohonom!
Yn y llun gwelir , o'r chwith i'r dde, Mary Richards(Cwmni Dyffryn) Euryn Ogwen, Pennaeth Rhaglenni S4C, Rosemary Trott, Rheolwraig Mondi ac Ann Beynon, Pennaeth Cysylltiadau cyhoeddus.



NEWID Y DREFN.

A ninnau'n clywed sôn am gymaint o ddefodau Nadoligaidd sy'n cynnwys troi pwdins, canu carolau ac agor anrhegion mae 'na un hen ddefod yn ein teulu ni ar fin dod i ben. Bob blwyddyn byddem yn prynu Jig Sô anferth gydag o leiaf mil o ddarnau bychain bach a'r rheiny cyn agosed â phosibl i fod yn unlliw fel yr 'Autumn Scene in the Wye Valley' a gafwyd un Nadolig- smoneth gymhleth o goch a melyn a brown heb yr llinell glir i roi cliw i ddatrysydd.Gosodwyd y jig sô ar lawr y gegin neu'r lolfa a phawb yn ei dro yn penlinio'n anghy-ffyrddus a chwysu dros y pentwr gan obeithio ymhen hanner awr gael un darn yn ei le priodol- a phawb arall yn canu dros y campwaith gyda gair o gyngor a chefnogaeth.Eleni fydd 'na ddim mil o ddarnau dryslyd yn britho'r carped. Mi fydd gennym ni jig sô, bydd. Ond darn o bren fydd hwnnw,rhyw droedfedd ar ei draws a phedair modfedd i lawr, gyda tyllau wedi ei torri ynddo i osod pump o wragedd mewn gwisg- Gymreig a'r rheini o wahanol feintiau. Ein gwaith fydd cyfeirio dwylo bach i'r twll cywir a dweud "Da iawn, cariad" neu "Na, tydi hwnne ddim cweit yn iawn" yn ôl y galw.Oes, mae gennym wyrion. Rhaid ffarwelio a'r Autumn Scene. Rhaid creu defod newydd- diolch i'r drefn.

M.H.W.

HEB FAGU'N LLWYR
HEB FAGU'R WYR.
MEDDAI' HEN AIR.
a glywodd y golygydd yn rhywle.

Cydymdeimlwn a theulu Margaret ac Eirug Davies, Mererid a Huw yn eu profedigaeth o golli "Mama".Bu "mama" yn fregus o gorff a iechyd am rai blynyddoedd, ond eto, yn rhyfeddol o wydn. Mawr fu ei dylanwad ar ei theulu.Rhyfedd o fyd.
Ond yw hi'n rhyfedd pa mor amal amal, y mae rhai yn ymladd i aros yn yr hen fyd 'ma, ac eraill yn ymdrechu i ddod yma?Yn ein rhifyn nesaf gobe gobeithiwn lawenhau bod Martin a Mererid Hopwood wedi cael etifedd bach . O am hadnabyddiaeth i o'r teulu, os yw o gysur iddynt-tra bydd Mererid, Huw, a'r bychan, neu'r fechan, bydd rhan o "Mama" fyw byth .

Dymunwn yn dda i Bethan Lewis sydd wedi cael llawdriniaeth yn ddiweddar. Rwy'n siwr y bydd ei cham a'i cherddediad yn sioncach yn fuan. Brysiwch wella Bethan.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Menna Gwyn a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth yn ddiweddar o golli Mam a Mamgu dyner. Meddyliwn amdanoch.

Gwellhad buan i Lisa Clwyd, merch Robin ac Eirlys Jones. Cafodd lawdriniaeth drom yn ddiweddar.. Da deall ei bod yn gwella a chryfhau ac yn siriol drwy'r cyfan. I fyny bo'r nod Lisa.

# CEFNOGI

Mae un o brif beldroedwyr rhyngwladol Cymru, sy erbyn hyn yn ol yn chwarae gyda Lerpwl ar ol tliad o £3 miliwn i symud i chwarae gyda'r cewri Eidalaidd Juventus, yn cynnig ei gefnogaeth i'r Ymgyrch Peidio Yfed a Gyrru - Does Dim Rhaid Gyrru I Gyrraedd Y Parti!

Yn y llun gwelir Ian gyda mascot yr ymgyrch Dai Draenog, cymeriad cartwn a ddyfeisiwyd gan y grwp pop CEFFYL PREN sydd yn rhoi cymorth i hybu ymgyrch y Swyddfa Gymreig. Cofiwch fe fydd eu sengl Nadoligaidd 'Roc Roc Nadolig' allan mewn llawn amser ar gyfer yr Wyl.



# HELYNT SIÔN CORN

Clywais gan un o brif gorachod Sion Corn yn y Ffindir bod yr hen Santa wedi cael cryn drafferth i gasglu teganau ynghyd eleni.
Roedd yr hen gena 'gwynt y gogledd' wedi dwyn map teithio Sion Corn ac yn gwrthod ei roi yn ol iddo Fel tasa hynny ddim yn ddigon,roedd y ceirw i gyd wedi rhewi'n gorn ac yn methu symud allan o stablau Siorn Corn.
Chwythwyd darnau o fap teithio Sion Corn i bob rhan o'r byd a bu plant bach o bob gwlad wrthi'n chwilio'n brysur am y darnau colledig.
Dim ond pum awr o oleuni sydd ar gael yng Ngwlad Sion Corn ar hyn o bryd ac mae'r Prif Gorach a'i gorachod bach wedi gorfod gweithio'n galed iawn ynghanol yr eira i ddod o hyd i'r darnau map colledig mewn pryd i'r Nadolig rhag siomi plant y byd.
Wyddoch chi bod plant Ysgol Gwaelod y Garth ac Ysgol Heol y Celyn yng Nghaerdydd wedi dar -ganfod y darn a laniodd yng Nghymru? DO WIR,ac wedi cael y darn allan o ddwylo Draig Castell Coch, dyna ichi gamp ynte?
Gafodd Sion Corn y darnau ynghyd? Wel, peidiwch a phoeni, Mae'r Prif Gorach wedi fy sicrhau fod popeth yn iawn ac y bydd pawb yn cael eu hanrhegion bore Dolig,ond beth am i chi edrych ar yr holl hanes ar S4C dydd Gwener Rhagfyr 23 am 6.15.








# AFALLON - CA

Yn fywiog.



**Miwsig - Arwel Hughes**

# ROL NADOLIG



# Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Sharon Hayes yn 1987

Eleni yn ôl pob tebyg fe fydd Sharon yn gweithio ar ddydd Nadolig yn Adran Mamnaeth Ysbyty'r Brifysgol yng Nghaerdydd ac yn cael cyfle efallai i helpu a chroesawu 'baban tlws' i'r byd.

Bwydwraig - dan hyfforddiant yw Sharon er ei bod hi eisoes yn nyrs cydnabyddedig gyda chymwysterau SRN. Dilynodd gwrs hyfforddi ym Mangor ac yna aeth i bendraw byd i ehangu ei phrofiad, ac yno fel Staff Nurse yn Ysbyty Middlemore, Auckland y treuliodd Nadolig '87.

"Profiad rhyfedd yw dathlu'r Nadolig yn yr haul ond dyna a wnes i llynedd allan yn Seland Newydd. Syrth y Nadolig yng nghanol gwyliau'r haf a bron y gellir dweud mai eilbeth yw'r dathlu wrth i'r teuluoedd ymbaratoi ar gyfer mynd i'w tai ar lan y môr. Nid pawb sy'n trafferthu i goginio'n draddodiadol - Salad a ffrwythau neu farbeciw sy'n digoni'r rhan fwyaf. Cofiaf siopa yn yr archfarchnad ar ddiwrnod carsboeth â sŵn y carolau yn dod o'r uchel Seinydd, a'r coed Nadolig a'r tinsl yn edrych allan o le ymysg yr hufen iâ a'r crysau T."

NADOLIG.

Y Nadolig cyntaf rydw i yn 'i gofio'n glir oedd pan oeddwn yn bedair oed. Ar fore Nadolig cerddais i lawr y grisiau lle roedd Sion Corn wedi gadael fy anrhegion a dechrau edrych trwy'r sach. Yr anrheg rydw i yn gofio fwyaf yw fy meic.Roedd yn un smart coch a gyda'r gair Raleigh wedi ei ysgrifennu ar yr ochor. Roeddwn yn teimlo'n grand iawn gyda'r beic a doeddwn i ddim yn teimlo doeddwn i ddim yn gallu aros i'w ddangos i fy ffrindiau.
Un o'r pethau gorau ddigwyddodd i ni- y Nadolig diwetha' pan o'n i'n ddeg oed, oedd cael mynd allan i barti noson cyn y Nadolig i wêsty tu allan i Gaerdydd. Ar ôl cael pryd o fwyd blasus drosben fe gawsom disco a bu pawb yn dawnsio tan tua hanner nos. Er ein bod wedi mynd i'r gwely mor hwyr noson honno yr oeddwn yn methu disgwyl i godi bore Nadolig i agor fy sach a rhoi fy anrhegion i fy nheulu.
Gan
Daniel Roddick.

Rwy'n un o'r rhai sy'n dwli ar y Nadolig-y gole a'r lliwie a'r arogl hyfryd,a'r awyrgylch o hwyl a chyfrinachau wrth baratoi. Rwy' wedi 'i fwynhau e ymhob cyfnod-cyfnod cynnwrf plentyndod o agor hosan yn y bore bach a'r cyfnod o godi'n gynnar ar fore rhewllyd i fynd i'r Plygain. Cyfnod gwylio llai ar y bocs a mynd mas am dro hir neu reid ar y beic ar hyd dyffryn Tywi- a phob man yn llethol o lonydd a thawel. Bod gartre 'da'r teulu yw'r Nadolig-dewis anrhegion a'u lapio'n bert, gwneud addurniade mas o iorwg a rhubane, gwneud y jig-so newydd blynyddol o flaen y tân, gwylio gormod o ffilmie, sŵn carole'n llenwi'r tŷ. Ond y gole a'r lliwie- 'na beth wy'n 'u cysylltu â'r Nadolig- gole canhwylle ac addurniade'n disgleirio yng ngole tân,a choch a gwyrdd ac aur ac arian ym mhobman yn llenwi dyddie tywyll.
Ma' cyfnod arall ar ddechre nawr. "Gartre" yng Nghaerdydd fydd y Nadolig am rai blynyddoedd, nid "gartre" yng Nghaerfyrddin, am fod 'na blentyn bach yn tŷ ni fydd yn dechrau disgwyl Sion Corn -a finne'n edrych mla'n at Nadolig newydd.
Ond ma' un peth yn ddigyfnewid bob blwyddyn- y cinio gore i gyd.Cinio Bocsing. Gweddillion y twrci oer, stwnsh llysie sbar cinio Dolig a chytni cartre. Pa isie gwell?
Cathryn Gwynn.


EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CYMRU

Gwahoddir ceisiadau am y swydd o

YSGRIFENNYDD/YSGRIFENYDDES

i weithio yn Swyddfa Eisteddfodau Cenedlaethol y De a leolir ym MARGOED, MORGANNWG GANOL.

Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus roi cefnogaeth ysgrifenyddol a gweinyddol yn y swyddfa fechan fyrlymus hon.

Cyflog i'w bennu yn ôl profiad a chymwysterau.

Am fanylion pellach a ffurflen gais, cysyllter â :

Penri E. Roberts, Trefnydd, Swyddfa'r Eisteddfod,
41 Heol Hanbury, Bargoed, Morgannwg Ganol.
Ffôn: (0443) 821677

---------*---------

Gwahoddir ceisiadau am y swydd o

YSGRIFENNYDD/YSGRIFENYDDES
(RHAN-AMSER)

i gynorthwyo'r Swyddog Celf a Chrefft yn Swyddfa Ganolog yr Eisteddfod yn 10 PARK GROVE, CAERDYDD.

Oriau hyblyg: 20 awr yr wythnos, a bydd gofyn am fwy o oriau yn ystod misoedd yr haf.

Tâl: oddeutu £3.00 yr awr. Fe ystyrir tâl uwch os cynygir profiad a chymwysterau da.

Ceisiadau, ar ffurf llythyr, i gyrraedd
Y Cyfarwyddwr, Eisteddfod Genedlaethol Cymru,
10 Park Grove, Caerdydd, CF1 3BN.
Ffôn: (0222) 394120
cyn gynted â phosibl.



"Pwy sy'n dwad......"

dan evans

i DAN EVANS Y BARRI

o hyn tan 'Dolig

Bob Pnawn Sadwrn 1.30p.m. - 5.30p.m.

ond

SION CORN CYMRAEG

dan evans

dewch i ddweud

"Hylo, hylo ........."

DAN EVANS, Heol Holton, Y Barri 734242

# MYFANWY HOWELL 1903-1988

Yn un o rifynnau arbennig y Dinesydd a gyhoeddwyd yn Eisteddfod Casnewydd, fe gynhwyswyd erthygl ar Myfanwy Howell, a oedd yn un o is-lywyddion yr Wyl.

Trist yw cofnodi o fewn misoedd wedyn fod Myfanwy Howell wedi marw yn ei chartref yng Nghasnewydd ar Dachwedd 14. Roedd wedi bod yn fregus ei hiechyd ers tro, ond gŵr ei llesgedd fe lwyddodd i ymweld â'r Eisteddfod ar ddechrau'r wythnos.

Roedd Myfi, fel y cyfeiriai pawb ati, yn llais adnabyddus ar y radio yn ystod y rhyfel, ac mewn cyfnod diweddarach daeth ei hwyneb rhadlon yn gyfarwydd iawn wrth iddi, ym mlynyddoedd cynnar teledu annibynnol yng Nghymru, gyflwyno'n wythnosol y rhaglen gylchgrawn lwyddiannus ac arloesol "Amser Te". Roedd ei brwdfrydedd a'i hagosatrwydd nodweddiadol yn ei gwneud, fel y dywedwyd ar y pryd, "yn wir frenhines y sgrîn fach".

Mae ein cydymdeimlad yn fawr gyda'i gŵr Illtyd, ei merch Betty, sy'n aelod o staff y BBC yn Llandaf, ei hwyrion a'i gorwyriom, a hefyd gyda'i ffrindiau ffyddlon yn y cylch hwn a fydd yn gweld y byd yn dlotach lle o golli Myfanwy Howell.

# ALUN OLDFIELD DAVIES

Yn fwriadol,nid wyf wedi rhestru'i anrhydeddau. Nid oes eu hangen.Wrth wrando ar Hywel Gwynfryn yn y bore bach clywais am farw Alun Oldfield Davies. Yr ymateb cyntaf oedd "O na na", ond rhaid derbyn bod i Natur ei threfn, a bod amser i bopeth.
A minnau'n olygydd Y Dinesydd,rhaid oedd meddwl "Pwy gai i dalu teyrnged iddo"? Sylweddoli ar yr un pryd ein bod yn ddiweddar yn tueddu i fod yn bapur llawn teyrngedau!
"Pwy gai?" medda fi wrtha'i f'hun"? Gallwn feddwl am lawer cymwys iawn, ond penderfynais lunio pwt fy hun. Pam? Am ran helaeth o'm bywyd bu'n arwr cyfeillgar i mi. Rhoddodd gyfle i mi yn llances hynod anaeddfed a dibrofiad.Melys yr atgofion, er yn boenus o swil ar y pryd, f'ymweliadau cyson â Park Place. Dyddiau cynnar y BBC yng Nghymru, ac yn amal dilornir ei gyfraniad trwy ddweud bod y byd darlledu bryd hynny gymaint yn llai nag yw heddiw.I mi, mwy o glod fyth iddo am fraenaru'r tir.
Alun Oldfield Davies-urddas, boniddigeiddrwydd,hiwmor, tafodiaeth ddeniadol, diwylliant, ac yn bennaf oll teyrngarwch i bopeth o'r gorau.
Yn fy mherthynas i ag ef, roedd y cysylltiad darlledol, ond hefyd, roedd yn un o ymddiriedolwyr Cymdeithas Cymry Ariannin. Yn rhinwedd hynny byddwn yn cysylltu ag ef yn gyson.Clyweis Gareth Price yn talu teyrnged iddo, gan gyfeirio ato fel "Gŵr nodedig a diwylliedig". F'ymateb cyntaf oedd "O am ystrydeb"! Ond y mae i rai ystradebau galon y gwir.
Ni freitiwyd ef a'i briod â'r fraint na'r boen o fagu plant. Ni chwerwodd



y naill na'r llall.Y ddau o gefndiroedd gwahanol - ond wedi cyfaddawdu,a pharchu y gwahaniaethau hynny.Ai ei briod i gapel Saesneg, ai yntau i'w gapel Cymraeg. Gwnaeth y ddau 'i gorau glas i hybu a chefnogi elusennau Cymraeg a dyngarol.
BuAlun Oldfield Davies yn gyfrifol amhybu sawl gyrfa cywion darlledol.Cadwodd ei urddas gydol ei oes, wrth ffarwelio ag ef ,y mae rhywun yn ymwybodol iawn bod talp o hanes, tafodiaeth, rhiddyn, urddas, ac atgofion am gyfnod sydd yn prysu gilio o gof y rheiny ohonom sydd ar ol. Roedd yn ddyn o gonsyrn mawr, gwarchodai ei gyfeillion, ei gydnabod, ei achosion da,a'i gyn- gydweithwyr, trwy ymweld â hwy, a'i tywys yma ac acw. Coffa da am y Rover mawr du a'i nodweddai am gymaint o flynyddoedd.Coffa da hefyd am ddarlun o gyfnod yn hanes darlledu, Cymreictod, diwylliant a'r Pethe. Ymgorffiad o gyfnod ac o bopeth da mewn bywyd. Diolch am y prifiad o fod â'r atgofion hynny yn fy meddiant.

At ddarllenwyr y Dinesydd

Cyfle i ennill!

Mae'n siwr fod pob un ohonom yn hoffi ennill unrhyw fath o wobr. Mae'r pleser yn dyblu wrth gael gwobr heb ffwdanu prynu tocynnau raffl bondigrybwyll a cheisio gwasgu'r enw a'r cyfeiriad ar fodfedd sgwâr o bapur.

Mae ffordd amlwg ddi-ffwdan ar gael i wneud hyn. Rhoi'ch enw unwaith ar ffurflen banc i gyfrannu'n flynyddol i Gymdeithas Cefnogi Canolfan yr Urdd, Heol Conwy. Wedyn fe gynhwysir eich enw yn y 'raffl' misol a cheir tair gwobr ariannol.

Rhaid cofio hefyd fod pâr o docynnau ar gyfer y gemau rygbi rhyngwladol yng Nghaerdydd ar gael gan y Ganolfan. Ceir cyfle i bob aelod o'r Gymdeithas Cefnogi ennill y tocynnau yn y 'raffl' a dynnir yn y misoedd priodol.
Am fanylion pellach cysyllter â Nerys Williams - Caerdydd 843670 neu Canolfan yr Urdd.

Enillwyr Cymdeithasol Cefnogwyr y Ganolfan am fis Hydref
1af J Williams, 32 Justin Cross, Dinas Powys
2il I Thomas, 4 Heath Park Avenue, Yr Heath
3ydd Alun T Williams, 88 Malefont St, Cathays

Canolfan yr Urdd
Heol Conwy
Caerdydd

Annwyl Shân

Diolch yn fawr am flwyddyn arall o'r 'Dinesydd'. Amgaeaf siec am £6 tuag at gôst cynhyrchu a phostio.

Rwy'n falch iddweud am gysylltiad newydd rhwng fy nheulu a'r iaith. Fy mrawd Maldwyn (sy'n cyflwyno rhaglen ddyddiol ar Radio Wales) yw'r canwr them 'Sam Tân' ar y gyfres deledu.

Cofion caredig

David Pope
10 Vowley View
Wootton Bassett
Wilts
SN4 8HT

Annwyl Olygydd

Yn dilyn llwyddiant dathliadau Nadolig yr Amgueddfa Werin y llynedd, penderfynwyd cynnal y dathliadau hyn eleni eto ar ddwy noson. Fe oleuir y Goeden Nadolig ar nosweithiau Iau a Gwener, Rhagfyr 15 a 16 a cheir y wybodaeth berthnasol ar y taflenni amgaeedig. Yn ogystal, o Ragfyr 5 bydd rhai o dai yr Amgueddfa wedi eu haddurno gan roi gwedd newydd i nifer ohonynt yn enwedig rhes Rhyd-y-car. O Ragfyr 15 hyd Ionawr 16 cynhelir arddangosfa o ffotograffau a gwrthrychau sy'n rhoi sylw i arferion a fu'n gysylltiedig â'r Nadolig ac a fu mewn bri yng Nghymru tan yn ddiweddar. Crewyd nifer o'r lluniau gan ddisgyblion ysgolion cynradd y cylch.

Yn ddiffuant
Tecwyn Vaughan Jones
Amgueddfa Werin Cymru
Sain Ffagan
Caerdydd

DATHLU DENGMLYWDDIANT YSGOL GLANTAF

Mae Ysgol Gyfun Glantaf - unig ysgol gyfun Gymraeg dinas Caerdydd a Sir De Morgannwg - yn dathlu ei dengmlywddiant eleni ac fe drefnwyd cyfres o ddigwyddiadau arbennig i ddathlu'r penblwydd.

Y digwyddiad cyhoeddus cyntaf fydd gwasanaeth carolau yn Eglwys Gadeiriol Llandaf nos Wener, Rhagfyr 1 am 7.30 o'r gloch. Estynnir gwahoddiad cynnes i gyfeillion yr ysgol.

Cynhelir perfformiad o'r Messiah yn Neuadd Dewi Sant, Caerdydd, ar Ebrill 12 gyda'r artistiaid, Elen ap Robert, Buddug Verna James, Jeremy Williams a Huw Evans, Robert Court ar yr harpsicord a Kathryn Morgan ar y soddgrwth. Gwahoddir staff a rhieni'r ysgol i ymuno â'r côr a fydd yn dechrau ymarfer ym mis Ionawr. Cysyllter â'r arweinydd Alun Guy, pennaeth Adran Gerdd yr ysgol.

Ar Fehefin 9, cynhelir cinio a dawns yng Ngwesty'r Angel yng Nghaerdydd gyda Wyn Lodwick a'i fand.

Trefnir darlith arbennig a'r gobaith yw mai hon fydd y gyntaf o gyfres o ddarlithoedd blynyddol; cynhyrchwyd caset cerddorol eisoes yn adlewyrchu gweithgareddau cerddorol yr ysgol dros y blynyddoedd, ac mae côr a cherddorfa'r ysgol yn bwriadu mynd ar daith gerddorol i Awstria ym mis Gorffennaf 1989.

Mae adrannau Drama a Saesneg yr ysgol yn trefnu noson o ddramâu; cynhelir arddangosfa o waith yr adran arlunio a'r adran grefftau, ac fe drefnir cyfres o ddigwyddiadau a gemau gan yr adran chwaraeon. Gêm griced fydd un o'r digwyddiadau arbennig rhwng tîm o rieni ac athrawon a thîm o enwogion.

Cynhelir aduniad hen ddisgyblion yng Nghlwb Ifor Bach ar Ragfyr 16 gyda'r bandiau, U Thant, Edrych am Jiwlia, Bili Chin, Cofion Ralgex a Crumblowers - bandiau sydd â chyn-ddisgyblion a disgyblion presennol yr ysgol yn aelodau ohonynt.

Cynhyrchir cylchgrawn o atgofion ac mae pob math o nwyddau crochenwaith arbennig eisoes ar werth. Gellir Archebu drwy'r ysgol.

Dywedodd Mr Malcolm Thomas, Prifathro Glantaf, "Fe fydd hon yn flwyddyn gofiadwy iawn i'r ysgol. Fe gychwynnodd gyda thaith lwyddiannus ein tîm rygbi i America a Canada yn ystod gwyliau'r haf.

"Mae'r ysgol wedi tyfu o 99 o ddisgyblion yn y flwyddyn gyntaf i'r 999 disgybl presennol.

"Mae'r galw am addysg Gymraeg yn y ddinas yn gryfach nag erioed. Erbyn hyn mae pum ysgol gynradd Gymraeg yn y ddinas yn unig ynghyd ag ysgolion yn y Barri, ym Mhenarth ac yn y Bontfaen. Mae pwysigrwydd a gwerth Ysgol Glantaf ym mywyd addysgol y brifddinas a'r sir yn sicr o ddal i gynyddu yn y blynyddoedd nesaf."

---

Bydd llawer o ddarllenwyr Y Dinesydd yn cofio am Gareth Griffiths mab Owen a Manon Griffiths. Y mae newydd adael Cymru ar daith chwe mis i Awstralia. Dymunwn yn dda iddo. Brysia'n ôl Gareth.

---




Bu taith Cwmni Recordiau Sain trwy Gymru yn ystod y Pythefnos Recordiau Cymraeg yn llwyddiannus iawn, a thra yn ardal Caerdydd bu'r uned a'r tim yn ymweld ag ysgolion Coed y Gof a Melin Gruffydd.

Enillodd nifer o blant o'r ddwy ysgol wobrau am ateb cwestiynau am gasetiau a fideos Cymraeg. Roedd y plant yn wybodus iawn am Sam Tân, ac hen os nag oni bai fideo Anturiaethau Sam Tân oedd y mwyaf poblogaidd.

---

# STRATA

Strata - Caerdydd

Mae Strata, y cwmni cysylltiadau cyhoeddus o Aberystwyth i agor swyddfa newydd yng Nghaerdydd, yn y flwyddyn newydd. Sefydlwyd y cwmni ym 1979 ac ar hyn o bryd cyflogir 16 o staff yn swyddfeydd Strata yn Rhodfa'r Gogledd, Aberystwyth.

Dywedodd Wynne Melville Jones, Cyfarwyddwr Strata fod agor swyddfa yng Nghaerdydd bellach yn ddatblygiad naturiol i'r cwmni ac yn elfen bwysig o'u strategaeth ar gyfer 1989. "Mae gennym eisoes nifer o glientau allweddol yng Nghaerdydd a bydd cael presenoldeb yn y brifddinas yn cryfhau ac yn gwella'n gwasanaethau i'n holl gwsmeriaid," meddai. Mae cwsmeriaid Strata yng Nghaerdydd yn cynnwys S4C, Curiad Calon Cymru, Bwrdd Croeso, Cyngor Chwaraeon Cymru, Cadw, Prifysgol Cymru, Eisteddfod Genedlaethol, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Y Gorfforaeth Letya yng Nghymru, Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg, Swyddfa'r Post a Chyngor y Celfyddydau.


---

Tipyn o newyddion am Huw Parry, mab Dr Tom a Margaret Parry, Awelon, Dinas Powys. Y mae Huw wedi derbyn ei radd Phd ac hefyd doethuriaeth. Llongyfarchwn ef ar ei lwyddiant. Graddiodd yng Ngholeg Politechnig Plymouth, ac yno y mae'n gweithio gyda gwaith yn gysylltiedig â Awdurdod Niwcliar Harwell. Da gweld Cymro ifanc yn llwyddo. Yn ogystal, pleser yw ei longyfarch hefyd ar ei ddyweddiad â Andrea Jane merch ieuengaf Mr a Mrs B Ambrose o Clevedon, Avon. Andrea hefyd yn gweithio ar gyfer ei Phd ym Mhlymouth Ein dymuniadau gorau i'r ddau yn eu gwaith a'i bywyd personol.


TAFLEN

12, Duke St. Arcade,
CAERDYDD.
Ffôn: 227530

SIOE NADOLIG


HYSBYSEBWCH YN Y DINESYDD

AM FANYLION CYSYLLTER A:
Tony Couch,
8 Crystal Glen,
Y Mynydd Bychan,
Caerdydd. CF4 5QH
FFON:CAERDYDD 753625
neu 818881 est. 344


---

Cydymdeimlwn â'r teulu i gyd yn Llysfaen efo Adelina Evans yn arbennig ar ei phrofedigaeth o golli'i Mham. Er i Mrs Davies gyrraedd oedran mawr, yr un yw'r golled i'r teulu.

## ALL Y TYFIANT BARHAU ?

Ym mis Medi, yn Nhreganna, agorwyd yr ail Gylch Meithrin ar bymtheg ac mae'n llawn yn barod!

Mae llawer o'n Cylchoedd yn orlawn ac yn cynnig dau neu dri sesiwn yr wythnos yn unig yn lle pedwar neu bump fel sy'n ddelfrydol i bob plentyn (2½-5 oed) yn hytrach na throi plant i ffwrdd.

I wella'r sefyllfa mae'n rhaid sefydlu mwy o Gylchoedd, felly, unwaith eto, mae'n rhaid apelio arnoch chi - y Cymry Cymraeg. Hebddoch chi i arwain neu i gynorthwyo yn y Cylchoedd, bydd llawer o blant bach heb brofiad meithrin Cymraeg. Hefyd, mae'n rhaid apelio at bob Cymdeithas, Eglwys a Chapel sy'n gallu cynnig man cyfarfod addas i Gylch newydd.

Mae nifer ohonynt wedi bod yn gefnogol dros ben yn ystod y pum mlynedd ar hugain diwethaf ac mae'r Cylchoedd yn gwerthfawrogi y cymorth hwn yn fawr iawn. Yn anffodus, nid yw ymateb pob Cymdeithas mor ffafriol. Yn ystod y dair mlynedd diwethaf yr wyf wedi cael fy synnu ar ambell achlysur fod rhai Eglwysi a Chapeli (nid un Cymraeg eto) wedi gwrthod lle i'r plant ac yn anfodlon hyd yn oed i gyfarfod i drafod y sefyllfa. Nid yw pob Cristion yn fodlon 'derbyn plant bychain'.

Yr amser yma o'r flwyddyn mae Apel 'Plant Mewn Angen' yn cael sylw. Gobeithir y bydd rhai o'n Cylchoedd yn elwa eleni eto ond nid arian yn unig sy'n mynd i ddatrys problemau ein Cylchoedd, yn arbennig yn y tymor byr.

Mae Pobl a Mannau Cyfarfod yn fwy prin nag arian yng Nghaerdydd.

Fel y clywais ar y radio y bore yma, 'Y ni - yr oedolion i gyd, sy'n gyfrifol am y ffaith bod plant mewn angen'. Dros blant bach y ddinas, rwy'n apelio arnoch chi. Mae'n plant bach dan bump mewn angen!

**MUDIAD YSGOLION MEIHRIN**

**YN EISIAU**

**A R W E I N Y D D E S**

**i Gylch newydd Heol Llangrannog (Llanishen). Gobeithir agor y Cylch cyn y Pasg; 4/5 sesiwn yr wythnos; 2½/3 awr y sesiwn.**

**YN EISIAU**

**G W E I T H I W R   C Y S W L L T**

**sy'n fodlon cynnig ychydig o oriau yr wythnos i helpu sefydlu Cylchoedd Mam a'i Phlentyn newydd yn y ddinas.**
**Telir hororarium**

**Am fanylion pellach am y ddwy swydd, cysyllter a'r**

**Swyddog Datblygu,**
**Ffon: 662232**

# GOBAITH MEWN ADFYD

Ar hyn o bryd mae'r Feibl Gymdeithas yn ymwneud ag un o'r ymgyrchoedd rhannu'r Ysgrythur mwyaf pwysig yn ei hanes - helpu'r eglwysi yng Nghymru i gyrraedd hanner miliwn o gartrefi â Gair Duw. Rhoddir copïau o lyfryn y Gymdeithas, Gobaith Mewn Adfyd, a gynhyrchwyd yn arbennig ar gyfer y genhadaeth hon, i bobl ar garreg eu drws gan Gristnogion o wahanol enwadau. Mae'r ymgyrch ddosbarthu, a luniwyd i dynnu sylw pobl Cymru ar y ffaith fod y Beibl yn berthnasol heddiw, yn rhan o genhadaeth Dweud Wrth Gymru a lansiwyd llynedd.


Un o brif amcanion ddwy flynedd Dweud wrth Gymru yw hyfforddi Cristnogion i weddio, i rannu eu ffydd ac i gynghori'r rhai sydd eisiau gwybod rhagor am Iesu Grist. Y Feibl Gymdeithas sy'n darparu'r deunydd a'r hyfforddiant ac, oddi ar Hydref 1987, mae Graham Loader, Uwch Swyddog Hyfforddi Eglwysi, wedi trefnu amrywiaeth o gyrsiau. Yn eu plith mae Dyfalbarhau mewn Gweddi a luniwyd i helpu eglwysi i sicrhau bod gweddi yn sylfaen i genhadaeth; Rhennwch y Newyddion Da, i'w paratoi nhw i ddosbarthu'r Ysgrythur, a Hoffem weld Iesu, i'w helpu nhw i drafod ymholiadau ar ôl y dosbarthu. Mae rhyw 5,000 o aelodau eglwysig eisoes wedi elwa ar y cyrsiau hyn a dywed Graham: "Mae'r Feibl Gymdeithas a Dweud wrth Gymru yn hyfforddi miloedd o Gristnogion ledled Cymru i fod yn filwyr troed gweithgar i Grist, yn cydweithio i ddweud wrth Gymru beth y mae Duw wedi'i wneud drostynt."

Bydd cyrsiau hyfforddi yn parhau i gael eu cynnal tan 1989. Bydd y genhadaeth yn cyrraedd ei phenllanw yn yr haf, pan fydd Luis Palau yn arwain Rali o Ymgyflwyniad Cenedlaethol, Ymgyrchoedd Pregethu Rhanbarthol, a Dydd o Ddathlu ym Mharc yr Arfau yng Nghaerdydd. Gellir cael ychwaneg o fanylion am y gweithgareddau hyn o Dweud wrth Gymru, Blwch Post 51, Casnewydd, Gwent, teleffon (0633) 840434.


NADOLIG CYMREIG YNG NGHANOL Y DDINAS

Y Cwbwl dan yr un to

Llyfrau Recordiau
Cardiau Calendrau




Oriel
53 Heol Siarl,
Caerdydd.
ffôn 395548

# BWTH RUTH



Wel helo pa hwyl sydd? Dyna sioe Smithfield drosodd am flwyddyn arall ag eleni mae'n gadael blas rhyfedd iawn yn y geg achos mae'n debyg fod yna newid ar droed - mae 'na sôn am ddatblygu math ar Smithfield yn Llanelwedd ym mis Tachwedd. Be wnaiff y genod heb y trip blynyddol i Lunden i siopa a be wnaiff gwesty'r Regent's Palace heb y mewnlifiad blynyddol Nadoligaidd o Gymreictod - fe gawn weld be ddaw!!


Un peth sy'n sicir - mae'r Nadolig ar ddod ag o'r holl rialtwch a'r paratoi dim ond un peth sy'n rhoi gwir foddhad i mi a hynny ydi derbyn y cardiau Nadolig - dyna'r un ddaw o Gyprus oddi wrth Jan a Dave - mi fydd ynddo lythyr wedi ei sgwennu gan Jan - a'i sgrifen yn anodd iawn i'w ddarllen - mi gai hanes ei chriw drama a helyntion perfformiadau '88 - dybed ydi Dave yn dal wrthi efo'i ysgol dysgu Saesneg fel ail iaith yn Limassol, ag oes yna gyhoeddwr wedi derbyn ei lyfr eto? Mae nhw'n byw mewn pentre digon cyntefig rhyw ddeg milltir o'r dre - mi ges i wyliau braf iawn hefo nhw rhyw chwe mlynedd yn ôl.

Doedd gen i'r un syniad pwy oedd yn anfon cerdyn Nadolig a marc pôst Dumfries arno - cerdyn mawr a llun Siun Corn yn dawnsio hefo Siân Corn - Mick a Doris Morris wedi symud o ardal Bae Colwyn i gadw tafarn yn Dumfries - dyma gwpwl sydd wedi cael blynyddoedd caled iawn; Mick yn gweithio yn Sandi a Doris yn byw yng Nghogledd Cymru gyda'u merch Shanon - a honno yn diodde o 'Hydro Cephalus'. Roedd gogledd Cymru yn siwtio i'r dim gan fod triniaeth posib i Shanon yn lleol ag mi gafodd ysgol oedd yn gweddu i'r dim yn yr ardal a'r ddwy yn mynd i weld Mick mor aml â phosib. Ond llynedd bu farw Shanon yn bymtheg oed - gellwch ddychmygu'r siom a'r galar. Mae Mick wedi rhoi'r gorau i'w waith dramor ag mae'r newyddion am dafarn yn Dumfries yn egluro lot - a Doris yn agos o'r diwedd i'w theulu yn yr Alban.

Fel arfer mae cerdyn Mrs Allen wedi cyrraedd - hen gymdoges i ni yn y Felinheli, gwraig weddw wedi ei gadael hefo dau fab dan 5 i'w magu - mi wnaeth y ddau yn dda - un yn gweithio hefo I.C.I. a'r llall yn teithio'r byd hefo cwmni codi pontydd - a'r ddau wedi ymddeol erbyn hyn. Mae eu Mam fel gwelwch chi yn hen iawn. Mi aeth Mam a finnau i'w gweld haf eleni yn ymyl Bournemouth a threulio 'chydig oriau yn hel atgofion a mwynhau cwmpeini - mi wn i beth fydd ar y cerdyn rwan - "Bendith arnoch wrth edrych mlaen at fy Almanac blynyddol". Ydw, mi rydwi wedi prynu'r Calendr hardda fedrwn i ffendio iddi - gan fod pob llun yn rhoi pleser mawr iddi.

Mi ddaw yna gardiau o Hong Kong, Aberystwyth, o Ganada, Porthmadog ag o East Anglia, ag yn y blaen - gwead rhain i gyd sy'n dangos ôl troed dyn ynde?

Wrth baratoi i fwynhau Gŵyl y Geni eto eleni gai ddymuno yn dda i chi i gyd a diolch am eich ffyddlondeb i'r Dinesydd. Nadolig Llawen i chi i gyd a Blwyddyn Newydd Dda.




---

'Welsh Imperial Singers' 1926 - 1939

Holi y mae Alun Trevor am unrhyw wybodaeth, lluniau hanesion, rhaglenni, etc am y Welsh Imperial Singers a ffurfiwyd ym 1926 gan eu harweinydd, R Festyn Davies. Buont yn canu tan 1939. 'Roedd y Cantorion yn enwog, yn cynnal cyngherddi drwy'r wlad a hefyd yng Ngogledd America. Unawdwr efo'r grŵp oedd tad Alun Trevor, y tenor Jabez Trevor (1888-1972), yn bennaf yn y blynyddoedd 1926-33. A dyna'r cefndir i'r llyfr ysgrifennodd Alun Trevor, llyfr sydd yn edrych am gyhoeddwr. Mae'n dwyn y teitl 'The Songbird is Singing', a'r is-deitl 'Scenes from a Welsh childhood in the 1920s'. Byw ar fferm (Pen-y-Wern, Treuddyn, Yr Wyddgrug) 'roedd yr awdur a'i frawd, dau fachgen wyth a naw oed, a'u tad yn canu ac yn teithio ym Mhrydain, America a Canada. Y cefndir yw ddyddiau Al Capone, y Gwaharddiad ar Ddiod, trafferthion Wall Street 1929, ac yn y blaen.


Ysgrifennodd erthyglau am y Cantorion a'r canlyniad ydi bod llawer o lythyrau wedi dod (o America, Canada a Phrydain) oddi wrth bobl sydd yn cofio'r Welsh Imperial Singers. Mae'nawr eisiau sgwennu Rhagair hir i'r llyfr, er mwyn rhoi eu hanes o'r dechrau (1926) i'r diwedd (1939). Mae ganddo 44 o enwau hyd yn hyn. Efallai fod rhai o'n darllenwyr yn gwybod am fwy, yn enwedig rhai o'r De a oedd ar y daith olaf i America a Canada, 1938-39.

Ymysg y papurau sydd wedi cael eu cadw ers y Dauddegau mae 'na ryw haner dwsin o raglenni'r Cantorion; a poster lliw, ac yn glamp (40" x 30"), o'r flwyddyn 1926. Dyma ffoto o ran o'r poster mawr, yn dangos Festyn Davies yr arweinydd a rhai o'r Cantorion, fel yr oeddynt ar y llwyfan wedi'u gwisgo yn ffasiwn dechrau'r 19eg ganrif cotiau coch bol deryn, gwasgodau brodedig, crysau â llewys llydan, trowsusau tynn, a'r arweinydd mewn clôs pen glin, sanau sidan a chôt bol deryn brown.

Pwy sy'n eu cofio nhw? Tybed a oes rhai ohonynt yn fyw o hyd? Os oes unrhyw un ohonoch ag unrhyw wybodaeth, boed fach neu fawr, yna buasai Alun Trevor wrth ei fodd yn clywed oddi wrthych. Ysgrifennwch ato yn 5 Windsor Court, Duke Street, Chester CH1 1RP.



# Y CROESAIR ~ Ap Lewsyn RHIF 86



**Ar Draws:**

1. Sais dienw yn gollwng llw ynghanol y rhoddion (8)
5. Deunydd bara lawr (6)
9. Dinas Dafydd (8)
10. Un o'r lliaws cyfarchion (6)
12. Ai blysio ai difa a wnest? (6)
13. Cloddir yn is (8)
15. 'A'r Gair a wnaethpwyd yn gnawd' (12)
18. '---- -------- dydd i'w gofio' (4,8)
23.  (3,5)
24. 'Parod y muriau, poered y moroedd
Eu trochion ofer i ------ nefoedd' (6)
26. Troi'r dafn te sy'n dod a'r wyl eglwysig (6)
27. Mae'r cacennau bach blasus yn gwneud sens i mi (a blaenor Peniel hefyd) (4,4)
28. Dyma rywbeth na fydd neb ohonom yn ei wneud dros y Nadolig (6)
29. Heb ei fath i lenwi hosan (4,4)

**I Lawr:**

1. Yn troi allan o bla llyg (6)
2. Swn llew yn dod o darth mudol -- dyna sut mae hi ar bob un sydd am gael pob dim yn barod at y Nadolig (6)
3. '------- ei seren ef'. (Mathew II) (7)
4. A hwn y gwneir 6 (4)
6. O'i eni e'n faban, mae'n bosib ei gysegru'n frenin (7)
7. Gwneir ymgais lew i adfer iechyd Mr. R. (8)
8. Rhaid i'r bwrdd trydan wneuthur hyn er mwyn darparu egni ar gyfer yr holl oleuadau -- a'r coginio (8)
11. Priodoledd sy'n gwneud celyn yn addurn Nadolig addas (7)
14. Fe'n hanogir gan y Salmydd i ganu fel hyn (2,5)
16. Y pleser a gawn o'r twyni man (8)
17. Yr harddaf oll (6,2)
19. Y ferch sy'n crwydro'n glau ar hyd y traethau (7)
20. Buaswn yn cael braw (7)
21. Derbyniad brwd, gan arwyddo adio dim (6)
22. Byddwn yn peri trafferth a chwn, os cant fynd yn rhydd (6)
25. Difyrrwch yr Wyl (4)

**Datrysiad Rhif 85**

**Ar Draws:**

1. FFYNHONELL; 6. DIBALL;
9. TATWS TRWY'U CRWYN;
10. IWRCH; 11. PRIORDAI;
14. CYSTADLAI; 15. IFORI;
16. DYSGA; 18. DEINIOLEN;
20. ENWOGION; 21. OBRY;
25. MACRELL WEDI'I FFRIO;
26. OFNAF; 27. DIRPRWYON;

**I Lawr:**

1. FFATRI; 2. NATURUS;
3. OESI; 4. NEBO; 5. LLWYBR-EIDDIO; 6. DOCTORIAID;
7. BRWYDRO; 8. LLANRHIDIAN;
12. CALAN GAEAF; 13. CLODFOR-WYD; 14. CYD-DEIMLO;
17. SGWLCAN; 19. LABORDY;
22. Y CORN; 23. ADAR;
24. SICR



**Cystadleuaeth Rhif 85**

Yn gyntaf peth, dymuna Ap Lewsyn ymddiheuro i'r rhai a fu'n ymboeni a'r croesair, am ei ddiofalwch yn gadael allan cliw 8 wrth deipio. O'r herwydd, distyrwyd rhif 8 yn gyfangwbl wrth farnu'r ymgeiswyr. Er waethaf y cliw coll, derbyniwyd deg ymgais; a bu i bedwar ohonynt gynnig ateb cywir i rif 8. Yr enw a dynnwyd o'r het oedd eiddo Meirion MacIntyre Huws, 1c Gerddi Howard, Caerdydd, ac felly fe fydd tocyn llyfr £5 ar ei ffordd iddo gyda hyn. Yr oedd chwech arall yn gywir (o ddiystyru cliw 8) sef: Tecwyn Vaughan Jones, Thornhill, Colin J. Murphy, Trelai, Marged Davies, Llandaf; S. Evans, Cathays; John G. Breese Treganna; Huana Simpson, Y Bontfaen; A.R.R. Abertawe; B.T. Cyncoed.

---

PENARTH A DINAS POWYS.
Cofiwch am wasanaeth carolau'r Gymdeithas Gymraeg yn Eglwys Sant Pedr, Dinas Powys am 7'30 Nos Lun Rhagfyr 19.
Croeso i holl ddinasyddion Caerdydd a thrigolion y fro i ymuno â ni yn ein gwasanaeth Carolau Blynyddol, coffi a mins peis i bawb wedi'r oedfa. Gill Lewis yw'r cadeirydd a Rowland Owen fydd yn gyfrifol am drefnu'r noson.
Hwyl dros yr Wyl a phob dymuniad da yn ystod y flwyddyn newydd i Nia merch Alun a Helen Daniel sydd ymhell oddicartref am y tro cyntaf erioed. MaeNia yn gweithio fel Nanny yn Wyoming, Pennsylvania U.S.A. am gyfnod o flwyddyn gyda theulu o dras Cymreig. Cyn ddisgybl o Ysgol Gymraeg Penarth ac Ysgol Uwchradd Glantaf yw Nia ac mae'n siwr bydd llu o ffrindiau yn dymuno cofio'n annwyl ati.Yn ystod yr wythnosau aeth heibio cafodd Nia'r pleser o gyfarfod â Chymry'r ardal yn eu cinio blynyddol. Hefyd, fe aeth gyda'r teulu ar ddiwrnod mawr yr Etholiader mwyn gwylio'r drefn o fwrw pleidlais am Arlywydd newydd yn yr Amerig Mae'n braf clywed fod Nia wedi cael dros rhyw bwl bach o hiraeth erbyn hyn - digon naturiol ynte? a hithau'n un o bedair o ferched .Hwyl fawr i Nia! gan obeithio y bydd hi'n elwa o'r profiad arbennig hwn a hithau ond yn ddeunaw oed.
Mae'n braf meddwlbod Gethin Lewis yn holliach unwaith eto. Cafodd Gethin gyfnod o driniaeth lem yn Ysbyty'r Felindre ond er yn hyn mae'r cwbwl tu ôl iddo ac yntau 'nol yn dilyn ei swydd fel prifathro Ysgol Gabalfa. Dymunwn yn dda i Gethin, Gill a'r teulu.
Cafodd Iwan Davies dirprwy Ysgol Gymraeg Penarth ddamwain cas wrth ddefnyddio torrwr lawnt.
Mae'n gwella'n iawn erbyn hyn ond gwyliech eich traed wrth dorri'ch lawnt - fe all fod yn berygl.